

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 Rhif 789 (Cy. 123) (C. 50)
AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Amaethyddiaeth
(Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024

Gwnaed - - - - 9 Gorffennaf 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 56(4) o Gorchymyn
Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023
(Cychwyn Rhif 2) 2024.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

RHAN 1

Y darpariaethau sy'n dod i rym

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 15 Gorffennaf

2. Daw adran 24 o'r Ddeddf i rym ar 15 Gorffennaf.

9 Gorffennaf 2024

Huw Irranca-Davies
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a
Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(2) ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 24 (Daliadau Amaethyddol: datrys anghydfod sy'n ymwneud â chymorth ariannol) o'r Ddeddf ar 15 Gorffennaf.

NODYN AR Y GORCHYMYN CYCHWYN BLAENOROL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

<i>Y Ddarpariaeth</i>	<i>Y Dyddiad Cychwyn</i>	<i>Rhif O.S.</i>
Adrannau 21 i 23	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Adrannau 25 i 33	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Adran 34	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Adran 35	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Adran 55	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Atodlen 1	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Atodlen 2 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Atodlen 3 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym	17 Hydref 2023	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)
Adrannau 36 i 44	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/1092 (Cy. 187)